

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**Craffu ar Gyfrifon ar gyfer 2013-14**

**Mawrth 2015**

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru](http://www.cynulliad.cymru)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565

E-bost: [SeneddArchwilio@Cynulliad.Cymru](mailto:SeneddArchwilio@Cynulliad.Cymru)

Twitter: [@SeneddArchwilio](https://twitter.com/SeneddArchwilio)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**Craffu ar Gyfrifon ar gyfer 2013-14**

**Mawrth 2015**

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw sicrhau bod gwaith craffu cywir a thrylwyr yn cael ei wneud ar wariant Llywodraeth Cymru. Nodir swyddogaethau penodol y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 18. Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill, ac ar ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y caiff adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Darren Millar (Cadeirydd)**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Gorllewin Clwyd



**William Graham**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Dwyrain De Cymru



**Mike Hedges**  
Llafur Cymru  
Dwyrain Abertawe



**Jocelyn Davies**  
Plaid Cymru  
Dwyrain De Cymru



**Sandy Mewies**  
Llafur Cymru  
Delyn



**Julie Morgan**  
Llafur Cymru  
Gogledd Caerdydd



**Jenny Rathbone**  
Llafur Cymru  
Canol Caerdydd



**Aled Roberts**  
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru  
Gogledd Cymru

---

Roedd yr Aelodau canlynol hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Keith Davies**  
Llafur Cymru  
Llanelli



**Alun Ffred Jones**  
Plaid Cymru  
Arfon

# Cynnwys

---

|  |           |
|--|-----------|
| <b>Rhagair y Cadeirydd .....</b>                           | <b>5</b>  |
| <b>Argymhellion .....</b>                                  | <b>6</b>  |
| <b>1. Rhagarweiniad .....</b>                              | <b>8</b>  |
| <b>2. Ymdopi â chyllidebau llai .....</b>                  | <b>11</b> |
| Cyfrifoldebau Ychwanegol .....                             | 13        |
| Ailstrwythuro .....  | 14        |
| Buddsoddi ar gyfer y dyfodol .....                         | 18        |
| <b>3. Arbedion gweinyddol.....</b>                         | <b>23</b> |
| <b>4. Perthynas Comisiynwyr â Llywodraeth Cymru .....</b>  | <b>27</b> |
| <b>5. Comisiynwyr fel corfforaethau undyn .....</b>        | <b>33</b> |
| <b>6. Goruchwyliaeth effeithiol / llywodraethu da.....</b> | <b>35</b> |
| <b>7. Rheoli arian parod a Chronfeydd Wrth Gefn .....</b>  | <b>40</b> |
| Cronfeydd wrth gefn .....                                  | 42        |
| <b>8. Fformat y Cyfrifon.....</b>                          | <b>45</b> |
| <b>9. Materion eraill .....</b>                            | <b>48</b> |
| <b>Atodiad A – Tystion.....</b>                            | <b>52</b> |



## Rhagair y Cadeirydd

---

Mae'n ofynnol i gannoedd o sefydliadau sy'n cael cyllid trethdalwyr yng Nghymru gyhoeddi cyfrifon ac adroddiadau blynyddol, ac mae'r rhain, ar y cyfan, yn cydymffurfio â gofynion adrodd, er efallai nad yw'r wybodaeth sydd ynddynt yn cael ei chraffu na'i deall cystall ag y gallai fod. Eleni, penderfynodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ystyried cyfrifon rhai o'r sefydliadau hyn fel rhan o becyn o ffyrdd newydd o weithio a gytunwyd gennym yn gynharach yn nhymor y Cynulliad.

Yn ychwanegol i Lywodraeth Cymru a Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ein ffocws yr hydref hwn oedd ar y Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn, Comisiynydd y Gymraeg a Chyngor Celfyddydau Cymru, a gwahoddwyd pob un ohonynt i sesiynau tystiolaeth gyda'r Pwyllgor. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein gwaith a'i ganfyddiadau, ac mae'n gwneud nifer o argymhellion sy'n ceisio gwella llywodraethu, gwneud adrodd yn fwy tryloyw, a sicrhau gwell gwerth am arian i drethdalwyr yn y dyfodol.

Bydd y Pwyllgor yn gwneud gwaith tebyg gyda sefydliadau eraill yn ystod hydref 2015. Yn y cyfamser, rwy'n cymeradwyo'r adroddiad hwn i'w ddarllenwyr ac yn hyderus y bydd yr argymhellion a wnaed gennym o ddefnydd i'r sefydliadau o dan sylw ac i'r sector cyhoeddus ehangach yn ei gyfanrwydd.

## Argymhellion

---

**Argymhelliad 1.** Argymhelliad: Dylai'r Comisiynydd Plant newydd ystyried profiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wrth gynllunio ac ymgynghori ar ailstrwythuro wrth ymgymryd ag unrhyw ailstrwythuro ei hun. (Tudalen 18)

**Argymhelliad 2.** Argymhelliad: Dylai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru nodi'n glir yn ei gyfrifon ar gyfer 2014-15 yr arbedion o'r buddsoddiad a wnaed mewn technoleg gwybodaeth a chyfieithu yn 2013-14. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 3.** Argymhelliad: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod ymdrechion i gyflawni effeithlonrwydd a mwy o gynhyrchiant trwy gydweithredu, gan gynnwys swyddogaethau'r swyddfa gefn, yn parhau rhwng y Comisiynwyr a'r Ombwdsmon, a bod hyn yn cael ei gyflwyno yn eu hadroddiadau blynyddol a chyfrifon 2014-15. (Tudalen 26)

**Argymhelliad 4.** Argymhelliad: Os bydd y berthynas ariannu bresennol yn parhau, dylai Llywodraeth Cymru gyfleu ei phenderfyniad yn gynnar o ran y cyllid sydd ar gael i'r Comisiynwyr. Yna, dylai'r cyllidebau hyn gael eu diogelu rhag gostyngiadau adrannol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. (Tudalen 31)

**Argymhelliad 5.** Argymhelliad: Dylai'r Comisiynwyr a'r Ombwdsmon gyhoeddi gwybodaeth glir am y cyfrifoldebau y maent wedi'u dirprwyo i'w staff. (Tudalen 34)

**Argymhelliad 6.** Argymhelliad: Dylai'r Pwyllgor Cyllid ystyried y berthynas rhwng Pwyllgor Archwilio a Risg Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ei banel cynghori, a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ac a ddylai trefniadau gael eu ffurfioli. (Tudalen 38)

**Argymhelliad 7.** Argymhelliad: Dylai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru nodi yn eu cyllidebau a'u cyfrifon eu dull o reoli arian - yn enwedig eu targed ar gyfer tanwariant. (Tudalen 42)

**Argymhelliad 8.** Argymhelliad: Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r tri Chomisiynydd annibynnol fod yn glir yn eu hamcangyfrifon a'u cyfrifon blynyddol ynghylch lefel y cronfeydd yr hoffent eu cario, a'r mathau o weithgareddau y byddent yn dymuno defnyddio'r cronfeydd wrth gefn ar eu cyfer. (Tudalen 44)



**Argymhelliad 9.** Argymhelliad: Mae'r Pwyllgor yn annog sefydliadau a ariennir gan arian cyhoeddus i ystyried sut y maent yn cyflwyno gwybodaeth am eu defnydd o arian cyhoeddus mewn ffordd sy'n hawdd i'r cyhoedd ei deall, ac sy'n dangos blaenoriaethau'r sefydliad a lefel yr adnoddau a ymrwymwyd i'r blaenoriaethau hynny. (Tudalen 46)

# 1. Rhagarweiniad

---

1. Mae craffu ar gyfrifon yn ddarn newydd o waith ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus presennol, ac yn deillio o adolygiad y Pwyllgor yn 2013-14 ar ei ffyrdd o weithio. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod gwaith craffu digonol yn cael ei wneud o'r ffordd y mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a nifer o gyrff ar wahân.
2. Y cyrff y cafodd eu cyfrifon eu hystyried gan y Pwyllgor oedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd y Gymraeg a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg ran bwysig i'w chwarae o ran cynrychioli hawliau pobl yng Nghymru, sy'n cynnwys herio rhyw gymaint ar Lywodraeth Cymru.
3. Llywodraeth Cymru sydd â'r gyllideb fwyaf o lawer o ran y cyfrifon a gaiff eu craffu gan y Pwyllgor, a chaiff ei chyllideb o dros £15 biliwn ei chymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol o Grant Bloc Cymru. Daeth Syr Derek Jones, yr Ysgrifennydd Parhaol, i gyfarfod y Pwyllgor ar 22 Medi 2014, ynghyd â Gawain Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr Rheolaethau Ariannol, Lynne Hamilton, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Masnachol a Michael Hearty, Cyfarwyddwr Cyffredinol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.
4. Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru [cyllideb o bron £50 miliwn] yw'r corff corfforaethol sy'n darparu'r cymorth ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol wrth gyflawni ei swyddogaethau, a ariennir o Grant Bloc Cymru, fel y pleidleisir arno gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod Cynulliad arall a enwebir gan y prif bleidiau gwleidyddol a gaiff eu cynrychioli yn y Cynulliad Cenedlaethol. Daeth Peter Black AC i gyfarfod y Pwyllgor ar 23 Medi, 2014 ar ran y Comisiwn, ynghyd â Claire Clancy, y Prif Weithredwr, sy'n bennaeth y staff sy'n gweithio i'r Comisiwn, a Nicola Callow, y Cyfarwyddwr Cyllid.
5. Fel aelod o Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol, cafodd Sandy Mewies ei gwahardd o dan y Rheolau Sefydlog rhag ystyried materion sydd gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac sy'n ymwneud â'r Comisiwn. Am y rheswm hwnnw, gwnaeth ei hun yn absennol o sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor gyda'r Comisiwn, ac nid yw wedi cymryd rhan yn nhrefnadaethau'r Pwyllgor am Gyfrifon y Comisiwn.

6. Mae gan Sarah Rochira, y Comisiynydd Pobl Hŷn, gyllideb o oddeutu £1.7 miliwn, a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Daeth i gyfarfod y Pwyllgor ar 7 Hydref ynghyd ag Alison Phillips, ei Chyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad.
7. Dechreuodd Nick Bennett ar ei swydd fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ym mis Awst 2014, ac mae gan ei swyddfa gyllideb o £4 miliwn, a ariennir yn uniongyrchol o Grant Bloc Cymru, fel y pleidleisir arni gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Daeth i gyfarfod y Pwyllgor ar 7 Hydref, ynghyd â Susan Hudson, Rheolwr Polisi a Chyfathrebu, Dave Meaden, Swyddog Cyllid a Chris Vinestock, Cyfarwyddwr a Phrif Swyddog.
8. Mae gan Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru, gyllideb o tua £1.7 miliwn, a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Daeth i gyfarfod y Pwyllgor ar 13 Hydref 2014, ynghyd â Tony Evans, ei Bennaeth Gwasanaethau Corfforaethol.
9. Tra roedd y Pwyllgor yn ystyried Cyfrifon y sefydliadau hyn, roedd Dr Mike Shooter yn cynnal adolygiad o rôl a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru. Mae rhai o'r materion a drafodir yn yr adroddiad hwn yn cyfateb i'r rhai a ystyrir gan yr adolygiad hwnnw, felly bu'r Pwyllgor yn cyfathrebu â Dr Shooter wrth iddo ymgymryd â'i adolygiad a nodwyd ei adroddiad wrth baratoi'r adroddiad hwn.
10. Mae gan Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg, gyllideb o £4.3 miliwn, a ddaw, bron yn gyfan gwbl, gan Lywodraeth Cymru. Daeth i gyfarfod y Pwyllgor ar 13 Hydref 2014, ynghyd â Richard Davies, Swyddog Cyllid.
11. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n derbyn cymorth grant gan Lywodraeth Cymru, ac y disgwylir iddo ei ddefnyddio yn ôl ei lythyr cylch gwaith. Mae hefyd yn dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol ac yn elusen gofrestrdig. Trafododd y Pwyllgor gyfrifon Gweithgareddau Cyffredinol Cyngor y Celfyddydau, yn ymwneud â'i ddefnydd o gymorth grant gan Lywodraeth Cymru yn ei gyfarfod ar 13 Hydref gyda Nick Capaldi, Prif Weithredwr, a Hywel Tudor, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau.
12. Yn hytrach na nodi canfyddiadau'r Pwyllgor o bob sesiwn graffu, mae'r adroddiad hwn yn nodi rhai materion a themâu trawsbynciol a drafododd y Pwyllgor yn ystod ei waith craffu. Mae rhai o'r rhain yn ymwneud â'r ffordd yr oedd arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio, rhai yn ymwneud â sut y cafodd y defnydd ei fonitro, ac mae rhai yn ymwneud â'r ffordd y cafodd y defnydd hwnnw ei nodi yng nghyfrifon y sefydliadau.

13. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y bydd yn gwneud y gwaith hwn yn flynyddol, o bosibl gyda gwahanol sefydliadau. Croesawodd y Pwyllgor yr ymateb cadarnhaol a gafodd gan y sefydliadau y cafodd eu cyfrifon eu hystyried, a bod Dr Shooter wedi ysgrifennu at y Pwyllgor yn nodi ei fod yn cefnogi cynnig y Pwyllgor i gynnal gwaith craffu ar gyfrifon y Comisiynwyr yn flynyddol.

## 2. Ymdopi â chyllidebau llai

---

14. Thema gyffredin yn y cyfrifon y bu'r Pwyllgor yn eu hystyried oedd y gostyngiad mewn gwariant cyhoeddus. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn uniongyrchol yn y lefelau is o adnoddau a gwariant yn 2013-14, fel yn y cyfrifon. Un thema a gododd yn rheolaidd oedd y pwysau ychwanegol ar y cyrff dan sylw, o ganlyniad naill ai i wariant is mewn manau eraill neu gynydd mewn cyfrifoldebau.

15. Roedd tystiolaeth yr Ysgrifennydd Parhaol i Lywodraeth Cymru yn glir ar hyn:<sup>1</sup>

“It has definitely... been a year, I felt, in which some of the challenges and pressures were beginning to come through from continuing reductions in budgets. So, we had 10% less spending power in that year than in 2010-11, I think. At the same time, cost and demand pressures in some areas were increasing. There are also ambitions to extend devolution in Wales to take on new powers and responsibilities, which all have to be managed and managed well. So, I felt that it was a pretty reasonable year, looking back, but a year in which clearly some of those pressures were beginning to emerge.”

16. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i gadarnhau bod y cyrff yr oedd yn eu hystyried yn ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â'r pwysau ychwanegol heb esgeuluso eu cyfrifoldebau o ran sicrhau gwerth am arian a defnyddio arian cyhoeddus yn briodol.

17. Soniodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru am y pwysau ychwanegol a grëwyd arni gan ostyngiadau cyffredinol ym maes gwariant cyhoeddus:<sup>2</sup>

“For me, the greater financial risk is actually the impact of the current financial pressures that are faced by public bodies, and then the knock-on impact that that has on older people, because, of course, what that does is drive more older people to my office and to need more support from me. So, the real risk arising from that financial risk is that the breadth of the issues that are coming to me, and the depth of them, is now phenomenally huge. There is almost not an issue that does not impact on older people now, and, for many, that impacts on them very, very significantly indeed. So, that is really the biggest impact around that financial risk—it is on the breadth of my

---

<sup>1</sup> Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2014, paragraff 5

<sup>2</sup> Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2014, paragraff 98

business, and the depth of what I need to address. The danger is that I become spread too thin within that, and that becomes quite a challenge for me. I signalled that last year, when I was in front of the Health and Social Care Committee—one of the biggest challenges that I have now is the impact of those financial changes on older people.”

18. Roedd gan Gomisiynydd Plant Cymru safbwyntiau tebyg ynghylch effaith yr amgylchiadau economaidd presennol ar ei lwyth gwaith:<sup>3</sup>

“However, that does not mean that [my legacy] report will not also identify huge challenges for an in-coming commissioner, not least because of austerity, if you think about the fact that there are more children living in relative poverty in Wales now than there were when I began as commissioner.”

19. Nododd Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd bod cyllidebau is ar gyfer awdurdodau lleol yn cael effaith ar ei sefydliad yntau:<sup>4</sup>

“We are very concerned about the potential impact of current local authority cuts. It is the one issue that is raging red on our risk register... Just to give you some sense of the context on this particular point, going back to our portfolio of regularly funded organisations, 54 of the organisations that we fund are also in receipt of funding from a local authority. In 2012-13, the local authority funding for that portfolio was just over £10 million, while the arts council’s investment was £16 million—so we are already the larger funder. However, the local authority funding for 2013-14 declined by 11%; so over the course of one year, 11% in one section of our expenditure disappeared.”

20. Ni allai Cyngor y Celfyddydau, o fewn ei gyllideb ei hun, lenwi'r bwloch a adawyd gan ostyngiadau mewn gwariant awdurdodau lleol ar y celfyddydau, ond roedd yn ceisio helpu sefydliadau celfyddydol i addasu i amgylchedd ariannu newydd:<sup>5</sup>

“We are trying to tackle that by talking to local authorities in two ways. First, we make the point, which my council has as a point of policy, that it cannot make good the funding cuts from local authorities. Second, we work with them to explore alternative models

---

<sup>3</sup> Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2014, paragraff 42

<sup>4</sup> Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2014, paragraff 304

<sup>5</sup> Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2014, paragraff 305

of operation... We have spent most of the last year talking to [Theatr Clwyd] about how the local authority's investment might be restructured and, indeed, reduced without adversely affecting, we hope, too much the quality of what is going on. We are simply, at the moment, going to have to replicate those kinds of conversations, I suspect, 22 times.”

21. Soniodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am gyllideb lai ynghyd â chynnydd yn y llwyth gwaith:<sup>6</sup>

“Over the last few years, we have had to do more with less. We received an 8% cut, I think, back in 2011-12, and the volume of enquiries and complaints that we have received has increased year-on-year, to the point that I would say—I am sure that we will touch on this later on—that, in terms of trying to forecast likely future pressures, certainly from 2009 we are facing a trend. I would say that the line on the graph is at around 45 degrees, which I hope gives people some impression of where we are at... Looking to the future, I think that those trends will continue....”

#### **Cyfrifoldebau Ychwanegol**

22. Cyn ystyried sut roedd sefydliadau yn ymateb i gyllidebau llai, nododd y Pwyllgor nad oedd rolau a chyfrifoldebau'r sefydliadau a gaiff eu hystyried ganddynt yn sefydlog, felly ceisiodd y pwyllgor ddeall a fyddai cyfrifoldebau ychwanegol yn dod i law.

23. Dywedodd yr Ombwdsmon y byddai mwy o bobl yn dod yn ymwybodol o'i rôl wrth i'w swydd ddod yn fwy gweladwy ac yn fwy sefydlog, a'i bod yn fwy tebygol, felly, y byddai pobl yn gwneud cwyn neu'n cyfeirio ymholiad iddo. Yn ogystal, byddai ei rôl yn cael ei ehangu gyda chyfrifoldebau newydd i ofal preifat - a gallai'r cyhoeddusrwydd a ddaw gyda hynny atgoffa pobl o rôl bresennol y swyddfa. Canlyniad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 oedd hyn, a rhoddodd yr Ombwdsmon sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai adnoddau ychwanegol ar gael iddo gyda'r cyfrifoldebau ychwanegol:<sup>7</sup>

“I think that we have received some additional funding for two posts to make sure that we are equipped to deal with that particular extension in jurisdiction.”

---

<sup>6</sup> Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2014, paragraffau 154-5

<sup>7</sup> Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2014, paragraff 178

24. Nid dyma, o reidrwydd, fyddai'r sefyllfa i Lywodraeth Cymru, gan y byddai'n cael rhagor o gyfrifoldebau dros drethu o dan Ddeddf Cymru 2014, yn arbennig o ran sefydlu Trysorlys i Gymru. Clywodd y Pwyllgor na fyddai adnoddau ychwanegol, o reidrwydd, ym Mloc Grant Cymru, gyda'r cyfrifoldebau ychwanegol hyn, a byddai hynny'n amodol ar ganlyniad y trafodaethau sydd ar y gweill. O ran a fyddai adnoddau ychwanegol ar gael i weinyddu cyfrifoldebau ychwanegol, dywedodd Michael Hearty wrth y Pwyllgor:<sup>8</sup>

“That is subject to an ongoing discussion between Welsh Government Ministers and UK Ministers. The Minister for finance wrote to the Chief Secretary to the Treasury quite recently about that particular discussion.”

**Julie Morgan:** “It will be extremely difficult to do, will it not, if you do not have any extra money at all?”

**Mr Hearty:** “Yes. We are not served particularly well by the fact that, in Scotland, that debate is now finished and the direction of travel is that the Treasury would not provide Scotland with any funding for implementing a treasury. We take the view that that was something that the Scottish Government dealt with the Treasury over, and Wales is different. The Minister for finance has written to the Chief Secretary to start those sorts of debates and discussions now.”

### **Ailstrwythuro**

25. Yn erbyn y cyd-destun hwn o leihau adnoddau, clywodd y Pwyllgor gan y sefydliadau yr ystyriwyd eu cyfrifon eu bod wedi cynnal rhywfaint o waith ailstrwythuro mewnol i wynebu heriau yn y dyfodol. O ystyried y gwariant sy'n gysylltiedig ag ailstrwythuro gweithlu, wrth ryddhau, recriwtio a hyfforddi staff, roedd hyn yn thema allweddol yn eu cyfrifon.

26. Llywodraeth Cymru, o bell ffordd, oedd y cyflogwr mwyaf o ran y cyfrifon a ystyriodd y Comisiwn. Dangosodd y cyfrifon eu bod wedi cynnal cynllun ymadael gwirfoddol mawr, ond ei bod hefyd wedi cynyddu nifer y staff yn y flwyddyn hon. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i gadarnhau bod hyn yn dangos ail-ganolbwyntio adnoddau staffio, yn hytrach na gorfod cael adnoddau newydd yn lle rhai na ddylai fod wedi cael eu rhyddhau.

---

<sup>8</sup> Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2014, paragraffau 29 - 31



27. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrth y Pwyllgor nad oedd nifer y staff wedi cynyddu dros gyfnod hwy o amser na'r flwyddyn a ddangosir yn y cyfrifon hyn. Yn ogystal, mae nifer y staff ychwanegol a ddangosir yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru o ganlyniad i uno Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru i greu Cyfoeth Naturiol Cymru a sefydlu Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd. Lle mae cynnydd wedi digwydd, gellir priodoli hyn i recriwtio prentisiaid a chynnydd mewn capasiti sydd â sgiliau arbenigol - yn benodol cymorth cyfreithiol i gefnogi'r llwyth gwaith deddfwriaethol cynyddol yn dilyn rhoi pwerau deddfu sylfaenol llawn o 2011. Roedd hwn yn fater allweddol i'r Pwyllgor, a chafwyd sicrwydd a manylion pellach gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn ei lythyr at y Pwyllgor.

28. Gan gydnabod bod y pwysau ychwanegol hyn yn debygol o barhau, soniodd yr Ysgrifennydd Parhaol am sut y maent wedi cael eu cymhwyso hyd yma ac yn y paratodau ar gyfer y dyfodol:<sup>9</sup>

“[L]ooking ahead—and I am currently discussing this with the First Minister and the Minister for finance—we will have to have a pretty tough and robust workforce strategy, because these overall budget pressures that I mentioned are not likely to go away in the foreseeable future and could well get worse, and central administration will have to make its contribution to those savings. It has done, actually. I think that, over the last couple of years, the central administration main expenditure group has returned more than £50 million from its baseline. I think that £54 million is the figure I recall. It has returned it to the centre, as it were, to help support priority front-line programmes. So, it has been okay up until now. We have stayed competent and capable and taken on new functions, but it will get even more challenging, I think, over the next few years.”

29. Yng nghyd-destun sicrhau y gellid ymateb i heriau yn y dyfodol a pheidio cynyddu nifer y staff yn gyffredinol, nododd yr Ysgrifennydd Parhaol ymagwedd y Llywodraeth tuag at gynlluniau ymadael gwirfoddol, a nododd y Pwyllgor eu bod ddwywaith gwerth rhai'r flwyddyn flaenorol:<sup>10</sup>

“I completely understand the point that the public might think, ‘Well, hang on, why is the Welsh Government paying people to leave?’, but that is the fundamental reason. However, it is a case of investing to

---

<sup>9</sup> Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2014, paragraff 11

<sup>10</sup> Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2014, paragraff 13

save. My golden rule would be that I would want my money back and to be moving into profit after about 18 months. So, there will be a severance settlement but I would expect the salary saving to cover that within 18 months. Thereafter, the organisation is in profit.”

30. Gan nodi'r awydd hwn i adennill y gwariant ar setliadau diswyddo, roedd y Pwyllgor yn ceisio sicrwydd ar rai setliadau mawr a ddangosir yn y cyfrif, gyda phedwar pecyn rhwng £100,000 a £150,000, a chafwyd y sicrwydd hwnnw.

31. Roedd y Comisiynydd Pobl Hŷn, a benodwyd am gyfnod o bedair blynedd, wedi penderfynu ailstrwythuro ei swyddfa yn gynnar:<sup>11</sup>

“In terms of my restructure, there were three priorities when I was appointed. My first was to engage with older people and ask them what they wanted me to focus on. That enabled me to publish my strategic priorities, and therefore my work programmes. My third priority—and it was an imperative—was to make sure that I had the skills and competencies internally to make me deliver on what feels, and still feels at times, like a challenging agenda... I wanted to go quickly, but not with undue haste. I implemented a root-and-branch review throughout the organisation, from the top to the bottom. It enabled me to reduce costs in relation to some of my back-office transactional costs, but also in my senior management structure... I was very conscious that I needed to use every penny to best effect to deploy and bring in new posts that would enable me to drive change for older people. It was absolutely critical that I did that. I had to go with some speed and, as I said, I hope not undue haste. I was very conscious that because I have a four-year term of office I could not spend three years working through a restructure of that process.”

32. Er mai ei chyfrifoldeb personol fel Corfforaeth Undyn oedd strwythur ei swyddfa, clywodd y Pwyllgor fod y Comisiynydd wedi paratoi achos busnes ar gyfer ei hailstrwythuro a chymerodd lawer iawn o gyngor ar ei hailstrwythuro, gan gynnwys gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd y Pwyllgor yn edmygu'r ffordd y gweithredodd y Comisiynydd yn gyflym ac yn feddylgar yn y broses o ailstrwythuro ei swyddfa. Caiff materion yn ymwneud â rôl y Comisiynydd fel Corfforaeth Undyn a'i pherthynas â Llywodraeth Cymru eu trafod yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

---

<sup>11</sup> Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2014, paragraff 53

33. Er bod y cyfrifon yn dangos dim ond yr ail flwyddyn o weithredu ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg, dengys ei chyfrifon bod ailstrwythuro wedi digwydd. Yn debyg i'r drafodaeth gyda Llywodraeth Cymru, ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd nad oedd y nifer tebyg o staff a ymunodd â'r sefydliad i'r nifer a adawodd o dan gynllun ymadael gwirfoddol yn adlewyrchu proses wastraffus. Dywedodd y Comisiynydd wrth y Pwyllgor mai'r ail flwyddyn hon oedd pan oedd yn ceisio sicrhau bod y strwythur staff a etifeddodd gan y corff a'i rhagflaenodd yn addas ar gyfer rôl y Comisiynydd:<sup>12</sup>

“Etifeddu strwythur staffio a staff o sefydliad a oedd yn bodoli o'r blaen wnaethom ni. Wrth ein bod yn rhoi'r cynllun strategol yn ei le yn ystod y flwyddyn gyntaf, daeth yn amlwg bod swyddogaethau ac anghenion y sefydliad newydd yn wahanol iawn i'r hyn a oedd wedi bod yn y gorffennol. Nid oedd y strwythur staffio yn ffit i bwrpas—yn sicr, nid oedd yn ffit i'r pwrpas o weithredu anghenion Mesur y Gymraeg. Dyna'r flwyddyn gyntaf. Yn ystod yr ail flwyddyn o weithredu, cyn mynd trwy'r broses ailstrwythuro a chyn mynd trwy broses y cynllun ymadael yn gynnar, buodd yn rhaid inni dynnu i mewn swyddogion dros dro. Mae yna enghraifft benodol—wel, mae lot o enghreifftiau penodol iawn—sef ein bod wedi cyflogi swyddog rheoli gwybodaeth a data am flwyddyn oherwydd, wrth weithredu fel rheoleiddiwr ac wrth ein bod yn delio â data personol a sensitif achwynwyr, roedd yn bwysig iawn bod gennym strwythurau a oedd yn gadarn. Tynnem i mewn arbenigedd penodol i roi'r strwythurau a'r gweithdrefnau hynny yn eu lle. Roedd y swydd yn un dros dro er mwyn gwneud gwaith penodol.”

34. Eglurodd y Comisiynydd nad oedd y staff dros dro yn rhan o'r cynllun ymadael gwirfoddol, ac mae'n bosibl bod eu cynnwys yn y ffigurau ar gyfer nifer y staff, felly, wedi rhoi argraff ychydig yn gamarweiniol.

35. Roedd y Comisiynydd Plant, a oedd wedi bod yn ei swydd ers 2008, wedi cynnal proses debyg o ailstrwythuro ei swyddfa ar ddechrau ei dymor:<sup>13</sup>

“In common, I suppose, with many people who begin work of this kind, I took a look at my organisation, and I restructured things. One thing that struck me when I became the commissioner was that I was spending about £67,000 on temporary staff. You will see in current accounts that I do not spend any money at all now on temporary staff. I introduced a less hierarchical management structure into the

---

<sup>12</sup> Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2014, paragraff 193

<sup>13</sup> Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2014, paragraff 15

organisation: we had 10 people in the organisation who had managerial responsibility; we now have five. We also reduced the staffing complement from 37 members of staff down to 27 full-time equivalent members of staff. So, I took a view that I needed to review job descriptions, to align that to a corporate plan, and to be very clear about the objectives that I wanted to set, as the Children's Commissioner."

36. O gofio bod Comisiynydd Plant newydd wedi cael ei phenodi ac y bydd yn dechrau yn ei swydd ym mis Ebrill, efallai y bydd hithau yn yr un modd yn penderfynu adolygu'r cymorth a ddarperir iddi gan ei swyddfa - yn wir, argymhellodd adolygiad Dr Shooter o rôl a swyddogaethau'r Comisiynydd Plant y dylai'r strwythurau presennol gael eu hailystyried. Byddai'r Pwyllgor yn argymhell iddi ddull Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o nodi'r achos busnes a cheisio cyngor allanol pe bai am wneud hynny.

37. Yn fras, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y mudiadau yr ystyriodd eu cyfrifon wedi gweithredu'n effeithiol wrth ymgymryd ag ailstrwythuro a oedd yn eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau yn fwy effeithlon yn y dyfodol. Fel y nodir yn gryno gan yr Ysgrifennydd Parhaol, maent yn golygu gwario yn y tymor byr i sicrhau arbedion tymor hwy.

38. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y mater o werth am arian cynlluniau gadael yn gynnar ymhellach yn ei waith ar adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru *Rheoli Ymadawiadau Cynnar yng Nghyrff Cyhoeddus Cymru*, a gyhoeddwyd ar 10 Chwefror 2015.

**Argymhelliad: Dylai'r Comisiynydd Plant newydd ystyried profiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wrth gynllunio ac ymgynghori ar ailstrwythuro wrth ymgymryd ag unrhyw ailstrwythuro ei hun.**

**Buddsoddi ar gyfer y dyfodol**

39. Yn wahanol i'r cyrff eraill a ystyriwyd yn y broses hon, mae Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi derbyn setliad mwy o faint yn 2013-14 na'r flwyddyn flaenorol. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ddeall sut mae'r Comisiwn wedi defnyddio ei setliadau mwy hael i sicrhau mynd i'r afael â setliadau mwy heriol mewn blynyddoedd diweddarach.

40. Roedd dwy brif enghraifft o adegau pan oedd y Comisiwn wedi gwneud buddsoddiad o'r fath, yn ymwneud â chyfieithu a chymorth technoleg gwybodaeth. O ran cyfieithu, lle roedd y Comisiwn wedi gwario oddeutu

£40,000 yn datblygu meddalwedd cyfieithu gyda Microsoft, dywedodd Prif Weithredwr y Cynulliad Cenedlaethol:<sup>14</sup>

“We launched in February the Microsoft Translator tool and, from the beginning of this year effectively, we have been using translator tools more extensively, including in the translation by the team. We expect that to follow through into savings that can be ploughed back into enhanced services for all Members, so that we have a better range of bilingual services and, in particular, services for committees, so that they are more tailored for individual Members and can be done faster and with more options for Members. There has been a saving of about 20% because of the capacity that is freed up by using those tools, which mostly has come along since the end of the financial year that we are reporting on, but that will be ploughed back into new and additional, better services for Members.”

41. Clywodd y Pwyllgor y dylai'r pecyn meddalwedd hwn ganiatáu i'r Comisiwn ymgymryd â chyfieithu yn fwy effeithlon a thrwy hynny leihau lefel y gwaith a gomisiynwyd yn allanol. Yn yr un modd, mae'r Comisiwn wedi sicrhau bod y ddarpariaeth technoleg gwybodaeth a chefnogaeth ar gael yn fewnol, gan ddod â'r contract allanol i ben.

42. Roedd cymorth TGCh mewnol wedi golygu cynnydd yn nifer y staff ar gyfer y Comisiwn, gyda tua 30 o bobl ychwanegol yn darparu cymorth. Cafodd ymrwymiad ariannol sylweddol ei wneud i ddod â TGCh yn fewnol, gyda'r Comisiwn yn awgrymu gwariant arbedion o £752,587 yn 2013-14.<sup>15</sup> Dangosodd cyfrifon 2013-14, fod y Comisiwn wedi gorfod prynu ei drwyddedau ac offer ei hun, wrth baratoi ar gyfer diwedd ei gontract gwasanaethau TGCh allanol yn 2014-15:<sup>16</sup>

**Peter Black** “Although we pressed the big red button in 2014-15 to move out of that contract and bring the management of the service in-house, there were at least 12 months of running the programme and project management to get to that point. It involved taking on additional staff, purchasing additional equipment, and putting everything in place, so that when we actually exited the contract, effectively at the end of July 2014, we were able to do so straight away. Of course, the preparation costs of that exit are all reflected in the accounts that you have in front of you, and some of it will be

---

<sup>14</sup> Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2014, paragraff 12

<sup>15</sup> Cofnod y Trafodion, 23 Medi 2014, paragraff 83

<sup>16</sup> Cofnod y Trafodion, 23 Medi 2014, paragraffau 71 a 77

reflected in the current year's accounts but you will also start seeing the savings of that decision in the current year's accounts as well."

"...[A]s part of the exit strategy, we have taken on a number of licences that were previously managed by Atos on our behalf. Some of those licences, we have gotten rid of and others we have renewed, and we have also taken on additional licences as part of that strategy. It is all part of the project management of that exit. Within context, of course, we have made significant savings as part of that."

43. Roedd dull gweithredu'r Comisiwn tuag at y contract TGCh yn adlewyrchu ei ymdrechion i ganfod a gwireddu arbedion posibl ar draws y sefydliad. Dywedodd Prif Weithredwr y Cynulliad Cenedlaethol:<sup>17</sup>

"[O]ur emphasis in recent years has been on trying to drive more value-for-money savings in other areas, and particularly through contract procurement work. We delivered £113,000 in savings, which will be recurring savings year on year, through value for money on things like the mobile phone contract. There are some very fruitful further changes of that sort, such as the move to Sharepoint, which will allow us to make other value-for-money savings. The change that we are going to be able to make to the phone system, now that we are outside of the Atos contract, is also going to deliver very significant value-for-money savings."

44. Croesawodd y Pwyllgor y ffaith fod y Comisiwn yn rhagweithiol yn chwilio am arbedion yn y cyfnod hwn, yn hytrach nag ymateb i lai o adnoddau. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at weld yng nghyfrifon 2014-15 y Comisiwn, lefelau'r arbedion a gyflawnwyd o'r buddsoddiad a'r camau a gymerwyd yn 2013-14.

“I am pleased that my predecessor put those measures in place and created the advisory panel and the audit and risk committee. Certainly, it is perfectly possible that a corporation sole might wish not to go down that route. Members of both committees, since I started, have been keen to tell me that I do not have to continue with this arrangement if I do not want to. I think that that would be the height of arrogance and hubris to think that I am above receiving advice or, indeed, being subject to audit and risk advice. I think that it is really important that we sustain both those organisations, and

---

<sup>38</sup> Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2014, paragraffau 180-1

<sup>39</sup> Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2014, paragraff 297

make sure as well that new members are invited to join, and that that is done on an independent and transparent basis. Obviously, there is this issue of challenge and how challenging they can be to the individual who appoints them... if there were any issues of public probity that were brought to me that I wished to ignore or not to act upon, they are free to approach you—I assume that it would be you, as Chair of the Public Accounts Committee. So, there are checks and balances within the system.”

84. Er bod y Pwyllgor yn gwerthfawrogi natur agored yr Ombwdsmon i her, fe wêl rinweddau mewn gwreiddio'r opsiwn o gyfeirio materion i'r Cynulliad Cenedlaethol yn fwy ffurfiol pe na bai'r Ombwdsmon yn ymatebol.

**Argymhelliad: Dylai'r Pwyllgor Cyllid ystyried y berthynas rhwng Pwyllgor Archwilio a Risg Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ei banel cynghori, a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ac a ddylai trefniadau gael eu ffurfioli.**

85. Cyngor Celfyddydau Cymru ei hun, mewn gwirionedd, yw bwrdd y sefydliad. Sonodd Prif Weithredwr Cyngor y Celfyddydau am drefniadau'r bwrdd ac atebolwydd ei sefydliad:<sup>40</sup>

“For me, personally, I have two routes of accountability. The first is through the Council of the Arts Council, which acts as our board and, since we are also a charity, our charitable trustees. I also have personal accountability through to the Welsh Government, as the organisation’s accounting officer. Our Council has 15 members, who are appointed via a process of public recruitment, and they are appointed by the Welsh Government’s Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism—as it now is. Underneath the council, certain responsibilities are delegated to committees. So, we have an audit committee, we have a capital committee—to look at the lottery capital funding that we give—and there is an HR and remuneration committee. They are supported by internal monitoring groups, each of which is chaired by a member of Council, and those monitoring groups look at equalities, the Welsh language and sustainability.”

86. Gan nodi y caiff aelodau Cyngor y Celfyddydau eu penodi gan Lywodraeth Cymru, i raddau helaeth ar eu profiad o fywyd diwylliannol Cymru, roedd y Pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod gan yr aelodau ddigon o annibyniaeth ar benderfyniadau gweithredol a gaiff eu gwneud gan Gyngor y

---

<sup>40</sup> Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2014, paragraff 67



Celfyddydau a all effeithio arnynt hwy'n bersonol , a bod ganddynt ddigon o gapasiti i ymgymryd â'u rôl ar Gyngor y Celfyddydau. Mewn gohebiaeth (29 Hydref) yn dilyn ymddangosiad y Prif Weithredwr gerbron y Pwyllgor, fe ymatebodd i'r ymholiad hwn, gan ddweud "*Members of Council are appointed by our Minister. They are recruited through an open appointments process conducted according to Nolan rules. Council members bring specific expertise and knowledge to the oversight and development of our activities*", "*Members of Council, as Charity Trustees, are precluded from pecuniary gain direct from the Arts Council*" a "*Declarations and potential conflicts of interest are meticulously noted and recorded*".

87. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y sefydliadau, y mae'n trafod eu cyfrifon, yn effeithiol yn eu defnydd o'u pwyllgorau archwilio a risg, a thryloywder y cyfrifon o ran nodi tâl yr aelodau.

## 7. Rheoli arian parod a Chronfeydd Wrth Gefn

---

88. Un mater sy'n codi'n aml ac a drafodwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor yng nghyd-destun y defnydd priodol o arian cyhoeddus yw gwariant ar ddiwedd y flwyddyn. Yn naturiol, cododd rheoli arian parod wrth graffu ar gyfrifon, ac yn arbennig y cwestiwn a oedd arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio mewn modd cyfrifol, neu oherwydd ei fod ar gael. Mater cysylltiedig oedd y defnydd o gronfeydd wrth gefn.

89. Canfu'r Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi gorffen y flwyddyn rydym yn craffu arni gyda £21 miliwn o arian parod dros ben. Cafodd hyn ei ddisgrifio fel swm "anhygoel o isel", o ystyried maint cyffredinol cyllideb Llywodraeth Cymru - sy'n cyfateb i tua 0.1 y cant - gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Parhaol am fwy o wybodaeth am yr hyn a elwir yn reolaeth feistrolgar o arian parod, <sup>41</sup>yn enwedig os oedd angen brys am arian parod ar ddiwedd y flwyddyn - ar wahân i lefel y cronfeydd wrth gefn sydd ganddynt:<sup>42</sup>

"If we did, for some reason, start to run out of cash, we would turn to the Treasury for support with that and the reason why we should have it. We do have to operate to quite a tight cash management regime with estimates of cash requirements being submitted monthly to the Treasury. We are expected to comply with those estimates to a plus or minus variation of about 5%. So, it is quite a rigorous system. We are not taking a flyer on this, but it is cash management. It is not the same as our spending power in the event of a flood or something like that.

"It is a good example of financial management. It is tight. I think that I said in my opening remarks that it is a weighty accountability when you realise that through this organisation flows £15 billion-worth of the public's money. I think that we underspent that in the year in question by 0.6%. I do not know whether anybody saw the film of HMS Duncan inching its way into Roath basin, but it sometimes feels a bit like that. There is very little space at the sides."

90. Clywodd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn y deg 'adran' gwariant uchaf, fel y pennir gan Drysorlys Ei Mawrhydi, gan fod ei gwariant misol yn amrywio tua 2.8% o'r rhagolygon. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd y swyddogion cyllid canolog mewn cyswllt dyddiol â chydweithwyr adrannol ar

---

<sup>41</sup> Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2014, paragraff 106

<sup>42</sup> Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2014, paragraffau 118 a 120

draws Llywodraeth Cymru i fonitro gwariant. Yn ogystal, roedd taliadau arian parod yn cael eu gweinyddu'n ganolog, gan alluogi Llywodraeth Cymru i fonitro cynnydd tuag at diwedd y flwyddyn ymhellach.

91. Wrth nodi llwyddiant o ran sicrhau ei bod yn dod mor agos â phosibl at ddefnyddio cymaint o'i chyllideb â phosibl, heb orwario, roedd y Pwyllgor yn awyddus i ddeall a oedd gan Llywodraeth Cymru darged penodol ar gyfer y lefel o danwario roedd am ei chyflawni. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol nad oedd:<sup>43</sup>

“I do not think that we have a policy that refers to a desirable figure of underspend. However, as I say, it is the minimum that we could prudently outturn on without taking a risk of the contrary, which is an overspend.”

92. Roedd y mater o Gronfeydd Datbygu Rhanbarthol Ewropeaidd a waharddwyd, a drafodir isod, yn enghraifft glir o ofynion ariannol nas rhagwelwyd, a'r angen i ganiatáu ychydig o hyblygrwydd ym maes cynllunio ariannol. Yn y digwyddiad a drafodwyd ym Mhennod 9, roedd Llywodraeth Cymru wedi gallu rheoli'r risg yn ystod y flwyddyn, ond pe bai wedi codi ar ddiwedd y flwyddyn, byddai Llywodraeth Cymru wedi gorfod gostwng gwariant mewn manau eraill, neu ddefnyddio ei hadnoddau wrth gefn yn annisgwyl.

93. Cadarnhaodd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru fod ganddo darged o wariant o fewn un y cant o'i gyllideb. Gofynnodd y Pwyllgor a allai hyn arwain at gymhelliant gwrthnysig i fynd i wariant diangen, yn hytrach na chydabod y cyfle i gyfrannu at leihau'r diffyg yng ngwariant cyhoeddus y Deyrnas Unedig. Nid oedd y Prif Weithredwr yn derbyn y gallai arian cyhoeddus gael ei wario yn ddiangen:<sup>44</sup>

“We absolutely would never spend unnecessarily, and that, as I was saying earlier, is the job of the investment and resources board. We have the Commission’s priorities, which it set out for us—in April, it met to confirm what its priorities were for the remainder of this Assembly. We have to prioritise within that, so we are unlikely to be able to deliver—partly because we are going to be tracking the reductions in the Welsh block—absolutely everything. So, we prioritise, but, if something cannot be done for whatever reason, then there are other priorities that we are ready to deliver.

---

<sup>43</sup> Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2014, paragraff 130

<sup>44</sup> Cofnod y Trafodion, 23 Medi 2014, paragraffau 225 a 236

“Most targets have perverse incentives written into them. Most targets do. You have to rely on the integrity and the priorities of the Commission, which are to deliver high-quality services that match the needs of Assembly Members and the Assembly, and deliver, at the same time, best value for money. That is what each and every one of us is aiming to achieve. We have no interest whatsoever in spending taxpayers’ money unnecessarily.”

94. Mae'r Pwyllgor yn credu bod y gwaith o reoli arian parod Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth sicrhau'r gwariant mwyaf posibl o'u cyllidebau, fel y pleidleisiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Wedi dweud hynny, mae hefyd yn credu bod angen dadl ynghylch lefel y tanwariant y mae'r Comisiwn a Llywodraeth Cymru yn ceisio ei chyflawni, ac y dylent nodi targedau ar gyfer tanwariant yn eu cyllidebau. Byddai hyn yn caniatáu i'w llwyddiant wrth reoli eu harian adnoddau gael ei asesu, a chynnal dadl hefyd ynghylch a ydynt yn cael eu herio'n briodol i sicrhau gwerth am arian a chyfrannu, o bosibl, at leihau diffyg.

**Argymhelliad: Dylai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru nodi yn eu cyllidebau a'u cyfrifon eu dull o reoli arian - yn enwedig eu targed ar gyfer tanwariant.**

**Cronfeydd wrth gefn**

95. Trafododd y Pwyllgor lefel y cronfeydd wrth gefn sydd gan y tri Chomisiynydd a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Clywodd fod cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i wahanol raddau, a bod yr hyblygrwydd y mae hyn yn ei ddarparu yn caniatáu mwy o hunanddibyniaeth, ac annibyniaeth, felly, ar Lywodraeth Cymru.

96. Roedd Comisiynydd y Gymraeg wedi defnyddio rhywfaint o'i chronfeydd wrth gefn wrth ymrygymrd â'r ailstrwythuro, ac roedd yn disgwyl adennill y gwariant hwn yn fuan:<sup>45</sup>

“Roedd y penderfyniad, felly, i fynd i lawr yr heol o ran ailstrwythuro yn un a oedd yn seiliedig ar roi cynllun strategol yn ei le, adnabod anghenion y dyfodol, edrych ar y strwythur a oedd gennym, a sylweddoli nad oedd y strwythur yn ffit i bwrpas a bod angen mynd i lawr yr heol hon... [R]oedd sawl cwestiwn yn codi i fi: A yw hyn yn angenrheidiol? Ydy, er mwyn gweithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth. A oes angen ailstrwythuro o'r top i'r gwaelod? Oes. A oes gennym y

---

<sup>45</sup> Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2014, paragraff 195

gyllideb ar hyn o bryd i wneud hynny? Mi oedd, ar y pwynt hwnnw, arian wrth gefn. Gosodwyd allan achos busnes, ac roeddwn yn rhagweld y byddai'n costio rhwng £400,000 a £500,000 i'n cael ni'n ffit i bwrpas. Yn yr achos busnes, gosodais allan y nod a'r bwriad o adfer neu ailennill y gwariant hwnnw o fewn tair blynedd—byddwn wedi'i adennill o fewn dwy.”

97. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru sut y gallai ei gronfeydd wrth gefn gael eu defnyddio pe bai'n ymgymryd â darn sylweddol o waith nas rhagwelwyd, gan roi hyblygrwydd gweithredol iddo. Byddai hyn yn osgoi gorfod chwilio am arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, neu ei gwneud yn ofynnol iddo gael caniatâd cyn ymgymryd â'r gwaith. Rhoddodd y Comisiynydd yr enghraifft o orfod cynnal ymchwiliad annibynnol i honiadau hanesyddol o gam-drin plant yng ngogledd Cymru.<sup>46</sup> Eglurodd Prif Weithredwr y Comisiynydd Plant y pwynt ymreolaeth o ran cronfeydd wrth gefn y Comisiynydd:<sup>47</sup>

“[T]he cushion there allows the office, or the commissioner, to consider what areas he might want to get involved in, rather than for him to be conscious of the fact that there is, perhaps, a potential financial barrier or that he would have to go to Welsh Government to seek additional funds if, in fact, what he was looking at was a service directly delivered by the Welsh Government and for there to be some conflict there.”

98. Roedd cronfeydd wrth gefn y Comisiynydd Plant wedi cronni yn raddol yn ystod y blynyddoedd ers sefydlu'r swyddfa, a dangosodd cyfrifon 2013-14 eu bod tua £400,000, neu tua 25% o gyllideb flynyddol y Comisiynydd. Roedd y Prif Weithredwr yn rhagweld y byddai hyn yn rhan bwysig o broses gynllunio'r Comisiynydd newydd am y pum mlynedd nesaf. Cadarnhaodd nad oedd unrhyw bolisi mewn perthynas â'r cronfeydd wrth gefn, ac nad oedd y Comisiynydd wedi cael cyngor ganddo o ran y lefel o gronfeydd wrth gefn a oedd yn ddymunol. Roedd yn derbyn y byddai polisi yn ddymunol.

99. Roedd gan Gomisiynydd y Gymraeg lefel uwch o gronfeydd wrth gefn, sef tua £600,000, er y byddai hyn yn cael ei gymharu â chyllideb sylweddol uwch nag un y Comisiynydd Plant. Gan nodi bod y lefel bresennol o gronfeydd wrth gefn yn seiliedig ar ragweld y byddai costau cyfreithiol yn

---

<sup>46</sup> Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2014, paragraffau 104-5

<sup>47</sup> Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2014, paragraff 106

gysylltiedig â'i chyfrifoldebau newydd, mae'r Comisiynydd yn nodi lefel y cronfeydd wrth gefn y byddai fel arfer yn ystyried eu cario<sup>48</sup>:

“Yr hyn sydd yn y cytundeb gyda'r Llywodraeth ar y mater hwn yw bod cronfa resymol wrth gefn. Mae'n anodd diffinio 'rhesymol'; mae rhesymoldeb un person yn wahanol i resymoldeb person arall... [Y]r ydym yn edrych ar swm o gwmpas £200,000 i £250,000 fel yr hyn a fyddai'n swm rhesymol. Nid oes fformiwla; nid oes gennym ychwaith, ar hyn o bryd, profiad o ddefnyddio'r pwerau hynny. Mae'n mynd i fod yn anodd gwybod beth yw cost cefnogi unigolyn i fynd drwy achos. Byddai'n rhaid iddo fod yn achos sylweddol—achos strategol bwysig yr ydym i fod yn ei gefnogi. Fodd bynnag, nid oes unrhyw fformiwla ar hyn o bryd ar beth fyddai'r gost honno. Richard, efallai y gallet egluro sut mae'r arian wrth gefn wedi ei osod allan ar hyn o bryd.”

100. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i gronfeydd wrth gefn gael eu defnyddio'n effeithlon, yn hytrach nag i gadw arian cyhoeddus a allai gael ei ddefnyddio i well diben. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r tri Chomisiynydd annibynnol fod yn glir ynghylch lefel y cronfeydd yr hoffent eu cario, a'r mathau o weithgareddau y byddent yn dymuno defnyddio'r cronfeydd wrth gefn ar eu cyfer. Dylai'r rhain gael eu nodi yn eu hamcangyfrifon a'u cyfrifon blynyddol ar gyfer craffu arnynt. Dylai Llywodraeth Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru fod ar gael i roi arweiniad ar lefelau priodol cronfa wrth gefn os gwahoddir hwy i wneud hynny.

**Argymhelliad: Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r tri Chomisiynydd annibynnol fod yn glir yn eu hamcangyfrifon a'u cyfrifon blynyddol ynghylch lefel y cronfeydd yr hoffent eu cario, a'r mathau o weithgareddau y byddent yn dymuno defnyddio'r cronfeydd wrth gefn ar eu cyfer.**

---

<sup>48</sup> Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2014, paragraff 204

## 8. Fformat y Cyfrifon

---

101. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ddefnyddio'r cyfle i ystyried cyfrifon i drafod a allai'r cyfrifon fod yn fwy agored i'r cyhoedd, o gofio eu bod yn nodi sut y caiff eu harian ei wario.

102. Mae cyfrifon Llywodraeth Cymru yn nodi dros £15 biliwn o wariant, ac mae'n naturiol na allent roi cymaint o fanylder â'r cyfrifon eraill a ystyrir gan y Pwyllgor. Roedd y Pwyllgor yn arbennig o awyddus i drafod sut y gallai'r cyfrifon fod yn gliriach i'r cyhoedd, yn ogystal â sut y gellid nodi cyflogau uwch reolwyr yn gliriach. Trafodwyd hyn yn gymharol fanwl yn adroddiad y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2014. Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol y camau yr oedd yn eu cymryd i wneud y cyfrifon yn fwy defnyddiol i'r darllenydd:<sup>49</sup>

“We do have plans to improve the accounts, and we are actually working with the Wales Audit Office on this now. It is something that the current management letter picks up... There is a recently published command paper by the Treasury that makes proposals for new standards, I guess you would call them, for the accessibility of Government annual reports and accounts. We are working with colleagues in Whitehall on that. We have no problems with improving, but there is something of a tension between accessibility on the one hand—. I think there is a desire to have accounts being shorter, so we would consider it a success that, with one set of accounts, the latest is about 60 pages, whereas its predecessor was 80 pages. There are less copious notes so it is less of an off-putting read for the public. However, on the other hand, more transparency can also mean more information and more detail. So, I think that it will be a balanced judgment... [W]e will do our best and that includes picking up any suggestions for more detailed information, bearing in mind, as I say, that we are at the same time trying to produce shorter and more readable accounts.”

103. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymdrechion Llywodraeth Cymru yn hyn o beth, ac yn credu bod potensial iddi esbonio'n well i bobl Cymru sut mae gwariant Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu ei darpariaeth o ran blaenoriaethau polisi.

104. Hefyd, trafododd y Pwyllgor a fyddai modd i sefydliadau ddweud yn well sut y maent wedi defnyddio arian cyhoeddus mewn ffordd sy'n esbonio

---

<sup>49</sup> Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2014, paragraff 209

blaenoriaethau'r sefydliad. Gallai hyn helpu i nodi i'r cyhoedd y lefel o adnoddau a roddir i faterion penodol, gan ganiatáu trafodaeth ynghylch blaenoriaethau'r sefydliad ac a yw'n dyrannu adnoddau yn unol â hynny.

105. Dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn ei bod yn ceisio dangos ei blaenoriaethau a'r gyfran o'i chyllid a oedd yn ymwneud â phob un:<sup>50</sup>

“I intend, in my impact and reach report next year, to publish [the allocation of expenditure]. So, just to give you an example, I know that, in relation to 2013-14, I spent—I will just pick one here—15% of my expenditure on my engagement with older people through a wide range of means. I know that I spent 18.29%, not be too precise, on driving up the quality and availability of health and social care. It will always vary. I know that, this year, I will spend a little bit more on safeguarding again because of the new safeguarding board and some of the changes coming in.”

**Julie Morgan:** So, you are able to link the specific programmes to the percentage of the budget spent.”

**Ms Rochira:** “Yes, very much so. For the first time this year, I did it in relation to non-staff costs, but next year I will do it across all costs as well.”

106. Roedd y Comisiynydd Plant wedi nodi ei gynnydd yn erbyn ei amcanion yn rheolaidd, er enghraifft gyda'i Bwyllgor Archwilio a Risg, ond nid oedd yn priodoli'r 80% o'i gyllideb sy'n cwmpasu costau staffio yn erbyn blaenoriaethau unigol neu ffrydiau gwaith.<sup>51</sup>

107. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymdrechion i nodi gwariant yn erbyn blaenoriaethau, gan gydnabod nad gwyddoniaeth fanwl yw hyn. Byddai'r Pwyllgor yn cefnogi cyfrifon sy'n dangos y dyraniadau hyn, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r gwerth am arian a gyflawnir yn erbyn amcanion sefydliadau. Dylai sefydliadau hefyd ystyried dangos sut mae eu gwariant yn cefnogi amcanion cyhoeddus ehangach, fel y rhai a allai godi o'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

**Argymhelliad: Mae'r Pwyllgor yn annog sefydliadau a ariennir gan arian cyhoeddus i ystyried sut y maent yn cyflwyno gwybodaeth am eu defnydd o arian cyhoeddus mewn ffordd sy'n hawdd i'r cyhoedd ei deall,**

---

<sup>50</sup> Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2014, paragraff 42-44

<sup>51</sup> Cofnod y Trafodion, 13 Hydref 2014, paragraff 33



**ac sy'n dangos blaenoriaethau'r sefydliad a lefel yr adnoddau a ymrwymwyd i'r blaenoriaethau hynny.**

## 9. Materion eraill

---

108. Cododd rhai materion penodol wrth i'r Pwyllgor drafod cyfrifon. Yn bennaf, roedd y rhain yn ymwneud â sefydliadau unigol, ac felly ar wahân i'r materion mwy thematig a drafodir yn yr adroddiad hwn.

109. Mae'r Pwyllgor yn ystyried ymdrin â data personol fel materion difrifol, a nododd bod nifer o gyfrifon a drafodwyd yn dangos achosion o dori'r rheolau wrth ymdrin yn briodol â data. Roedd cyfrifon y Comisiynydd Pobl Hŷn a chyfrifon Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi achosion o dorri, a thrafododd y Pwyllgor hyn gyda pob un ohonynt.

110. Yn y ddau achos, cadarnhawyd bod y toriadau wedi digwydd oherwydd gwall dynol, ac mai gohebiaeth wedi'u cam-gyfeirio oeddynt. Roedd hyn yn tawelu meddwl y Pwyllgor, ac yn benodol y camau a gymerodd Swyddfa'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i leihau'r risg o gamgymeriadau yn y dyfodol o ystyried y deunydd sensitif iawn mae'n debygol o ymdrin â hwy. Dywedodd cyfarwyddwr y swyddfa:<sup>52</sup>

“[W]e have had a lot of training sessions to try to reinforce that, and we have notices around the office to remind people of the importance of treating data carefully and making sure that we do look after them safely. We have also asked our internal auditors, Deloitte, to have a look at our arrangements for data security as part of the audit plan for the current year.”

111. Dangosodd cyfrifon Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru golledlled sylweddol a oedd yn anadferadwy ac, yn ei adroddiad blynyddol, trafododd achos o dwyll a oedd wedi digwydd iddo. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Comisiwn a oedd y materion hyn yn gysylltiedig.<sup>53</sup>

**Peter Black:** “Yes, they are. You are right, there was a fraudulent incident, which is very much regrettable and which resulted in £104,000 being paid to a fraudulent bank account. Note 16, as you say, mentions losses and special payments, and page 109 is where the £71,000, affecting 2013-14, is disclosed. This fraud occurred over a period of four months and will therefore also appear in the 2014-15 accounts, because it is spread over two financial years. On becoming aware of the fraud, the Commission took action to introduce more stringent controls. This has included third-party

---

<sup>52</sup> Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2014, paragraff 302

<sup>53</sup> Cofnod y Trafodion, 23 Medi 2014, paragraff 5

verification for change requests in relation to bank accounts. Committee members are already aware that this is an ongoing police investigation, so, while an arrest warrant and subsequent arrest have been made, it is highly unlikely that we will recover any of the £104,000. The scam we fell for was part of a bigger scheme, but, hopefully, you will be reassured that we have responded appropriately, that we have had assurances that this is an isolated incident and that we have changed our processes to make sure that it will not happen again.”

112. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ddeall sut y digwyddodd yr achos hwn o dwyll, a pha gamau a gymerwyd gan y Comisiwn er mwyn atal digwyddiadau tebyg rhag digwydd eto. Roedd y Comisiwn yn gyfyngedig o ran yr hyn y gall ei drafod ar y pryd, gan fod achos troseddol yn parhau. Dylai'r rhain fod wedi dod i derfyn erbyn y bydd y Pwyllgor yn ystyried cyfrifon 2014-15 y Comisiwn, pan fydd yn gallu trafod y mater yn fanylach.

113. Mae cyfrifon Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi digwyddiad yn ei adroddiad rheoli, a oedd wedi achosi i'r Adran Addysg a Sgiliau dorri ei chwmpas. Clywodd y Pwyllgor fod y gwall hwn, yn ymwneud â'r llyfr benthyciadau i fyfyrwyr, yn golygu nad oedd dros £25 miliwn o Wariant a Reolir yn Flynyddol, nad yw'n arian parod, wedi cael ei dynnu i lawr gan Lywodraeth Cymru. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ddeall y goblygiadau ar gyfer yr adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, a pha wersi a ddysgwyd.

114. Soniodd yr Ysgrifennydd Parhaol am yr hyn a ddigwyddodd:<sup>54</sup>

“Yes, of course. It was an error. When I mentioned at the beginning that I thought that the accounts showed a reasonable picture overall of governance and accountability, but that there had been mistakes, this was one of the main ones that I had in mind. It was just a processing error of putting figures into the financial model that estimates the outstanding value of the student loan book. It has been an area of some change, so the model has been changed once, and I think that it will be changed again, so there is some complexity and churn in the process. However, it was an error; I cannot excuse that. It did not create any problems with our spending power, although it sounds like a very large sum of money, because this is non-cash annually managed expenditure, and the error was spotted at a point

---

<sup>54</sup> Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2014, paragraff 56

in the financial year when it was too late to do what we would normally do in those circumstances, which is simply apply to the Treasury for the necessary cover to be transferred to our books, which would have been automatic. However, it was too late in the financial year, so we had to carry it forward as an error and an overspend... There is a sense of proportion as well in that it was a £25 million error on the model estimating the value of the student loan book, which runs into the billions, so it was relatively marginal on that item as well—but not good enough. We have examined the reasons for it, and have put changes in place. I never use the word ‘ensure’ in these circumstances, but we have put changes in place to reduce the risk of anything similar happening again.”

115. Cafodd y Pwyllgor ei sicrhau nad oedd y gwall yn effeithio ar lefel y cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, ond roedd yn dal i bryderu ei fod wedi digwydd. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Parhaol am fanylion y gwersi a ddysgwyd gan Lywodraeth Cymru, a chafodd ddogfen fewnol breifat a baratowyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau fel dogfen o wersi a ddysgwyd. Roedd Michael Hearty wedi gallu nodi yn fras pa gamau unioni a gymerwyd:<sup>55</sup>

“I think that the creation of the error has made us think really closely about a number of things—about process, about teams working together, and about how we pass information between different teams that might be in different parts of the organisation. Much of what we have done in order to avoid it happening again has been around creating closer joint working around teams, and putting better audit trails and processes in place. On creating groups, as a really good example, there was an assurance group that met on an ad hoc basis, usually at the time when the handle was turned on the model, but it now meets regularly, so that it can keep abreast of developments.”

116. Roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am rannu ei dogfen breifat ar wersi a ddysgwyd, ac roedd y cynnwys wedi tawelu'i feddwl. Byddai'r Pwyllgor yn disgwyl na fydd y gwersi hyn yn cael eu cyfyngu i'r Adran Addysg a Sgiliau, ac y cawsant eu cymhwyso'n ehangach ar draws y Llywodraeth.

117. Yn ei drafodaethau ar 6 Mehefin 2014 ar reolaeth Llywodraeth Cymru o grantiau, trafododd y Pwyllgor gyda'r Ysgrifennydd Parhaol y mater o atal

---

<sup>55</sup> Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2014, paragraff 59

rhai Cronfeydd Datblygu Rhanbarthol yr Undeb Ewropeaidd a ddaw i Gymru gan y Comisiwn Ewropeaidd. Yn ei ymddangosiad gerbron y Pwyllgor i drafod cyfrifon 2013-14, amlinellodd yr Ysgrifennydd Parhaol pam fod yr ataliad hwn wedi digwydd, ynghyd â'r sefyllfa bresennol:<sup>56</sup>

“It occurred because the European Commission took a different view about the technicalities of the audit that it would accept on the regularity of payments, in the sense of the delivery of the outputs. An agreement had been reached with the Commission. We were operating one type of sampling. The Commission took the view that it would no longer accept that type of sampling, and we are in the process of negotiating the consequential changes to that. You can imagine that I am not terribly happy about it, but the payments are suspended in the meantime—or ‘interrupted’, as I think is the technical phrase. We have been putting a lot of work into this, with meetings over here and in Brussels. The Commission’s auditors visited us recently to go through some of our paper work.

“We are still feeling confident that there is not a fundamental problem here, but as I sit in front of you, the payments are still interrupted.”

118. Mewn trafodaethau eraill, canfu'r Pwyllgor bod angen i Lywodraeth Cymru ddarparu £30 miliwn bob mis, yn lle'r taliadau a ataliwyd. Perodd hyn rywffaint o bryder i'r Pwyllgor, ac oni bai bod y gwaharddiad yn dod i ben, gallai Llywodraeth Cymru fod wedi gorfod darparu symiau sylweddol. Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor ar 21 Hydref 2014 i gadarnhau bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi ail-ddechrau ei daliadau.

---

<sup>56</sup> Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2014, paragraff 77-8

## Atodiad A – Tystion

---

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn [www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=1311](http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=1311)

### Dydd Llun 22 Medi 2014

|                 |  |
|-----------------|--|
| Syr Derek Jones | Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru  |
| Gawain Evans    | Dirprwy Gyfarwyddwr Rheoli Ariannol, Llywodraeth Cymru                           |
| Lynne Hamilton  | Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Masnachol, Llywodraeth Cymru                   |
| Michael Hearty  | Cyfarwyddwr Cyffredinol, Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid, Llywodraeth Cymru |

### Dydd Mawrth 23 Medi 2014

|                |   |
|----------------|---|
| Peter Black AM | Aelod o Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru         |
| Claire Clancy  | Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Nicola Callow  | Cyfarwyddwr Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru       |

### Dydd Mawrth 7 Hydref 2014

|                 |  |
|-----------------|--|
| Sarah Rochira   | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru   |
| Alison Phillips | Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad, Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru        |
| Nick Bennett    | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru                                       |
| Susan Hudson    | Rheolwr Polisi a Chyfathrebu, Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| Dave Meaden     | Swyddog Cyllid, Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru               |
| Chris Vinestock | Cyfarwyddwr a Phrif Swyddog, Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru  |

### Dydd Llun 13 Hydref 2014

|                |  |
|----------------|--|
| Keith Towler   | Comisiynydd Plant Cymru  |
| Tony Evans     | Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru |
| Meri Huws      | Comisiynydd y Gymraeg  |
| Richard Davies | Swyddog Cyllid, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg                        |
| Nick Capaldi   | Prif Weithredwr, Cyngor Celfyddydau Cymru                            |
| Hywel Tudor    | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, Cyngor Celfyddydau Cymru             |

